



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West



Gweithio gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin...

www.dysgucymraeg.cymru/GO

“Profiadau dysgu ac addysgu rhagorol”, Estyn 2021



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West

Pwy ydy Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin?

Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin (DCGO), Prifysgol Bangor sy'n gyfrifol am ddysgu Cymraeg i oedolion ar draws Gwynedd, Môn a Chonwy ar ran Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Rydym yn darparu dros 200 o gyrsiau o'r safon uchaf, a hynny ar-lein a wyneb-yn-wyneb. Gyda thros 50 mlynedd o brofiad yn y maes, mae darpariaeth DCGO yn mynd o nerth i nerth wrth i ni gefnogi mwy a mwy o siaradwyr newydd i ddefnyddio'r Gymraeg.



“Profiadau dysgu ac addysgu rhagorol”, Estyn 2021

Os ydych chi'n berson sydd...

- ✓ â diddordeb mewn pobl
- ✓ eisiau gwneud gwahaniaeth
- ✓ â'r gallu i ysbrydoli eraill
- ✓ eisiau gweld y Gymraeg yn ffynnu

...ymgeisiwch am swydd fel tiwtor
Cymraeg tâl wrth yr awr gyda Dysgu
Cymraeg Gogledd Orllewin!



Mae gweithio fel tiwtor Cymraeg tâl wrth yr awr...

yn cynnig **HYBLYGRWYDD**

gan fod modd cynllunio eich amserlen dysgu o amgylch galwadau eraill, megis swydd arall neu gyfrifoldebau gofalu.

yn **DDATBLYGIAD PERSONOL**

heb ei ail sy'n arwain at ennill cymhwyster dysgu Lefel 4 CBAC i diwtoriaid dysgu Cymraeg.

yn **FRAINT**

yn sgil y cyfraniad a wna'r maes tuag at gyflawni nod Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, Llywodraeth Cymru.





Cefnogaeth i diwtoriaid newydd



MENTOR

Fel tiwtor newydd cewch gymorth amhrisiadwy gan fentor profiadol a fydd wrth law i'ch cefnogi ar ddechrau eich gyrfa newydd.

Y GYMUNED DDYSGU

Byddwch yn dod yn aelod o'n cymuned o diwtoriaid fydd yn barod i'ch croesawu, eich cymell a'ch ysbrydoli.

SGILIAU CYMRAEG

Os ydych chi wedi dysgu Cymraeg, neu os ydy'r Gymraeg yn famiaith i chi, bydd gweithio fel tiwtor yn gyfle gwych i chi ddatblygu eich sgiliau Cymraeg mewn awyrgylch cefnogol.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West

Be' ydy barn tiwtoriaid am weithio gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin?

Mae'r gefnogaeth gadarn i diwtoriaid, yr **hyfforddiant** a'r sylw a roddir i warchod **lles** staff yn wych.

Ni allaf ddychmygu bod mewn swydd well, yn arbennig fel **swydd gyntaf**. Rwyf wedi argymhell Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin fel cyflogwr i fy ffrindiau yn barod!

A minnau wedi ymddeol yn gynnar, mae gweithio fel tiwtor yn rhoi'r **hyblygrwydd** i mi warchod fy wyrion yn ogystal â chwarae rhan fach i geisio sicrhau parhad y Gymraeg yn **lleol**.

Rwy'n teimlo bod fy nghyfraniad yn cael ei werthfawrogi ac mae'n **fraint** cael cydweithio a theimlo'n **rhan o dîm** o diwtoriaid croesawgar a chynhaliol.

Dw i **wedi dysgu Cymraeg fy hun** ac mae gweithio fel tiwtor yn rhoi'r cyfle i mi rannu fy ngwybodaeth o'r broses ddysgu ag eraill. Does dim i guro'r teimlad o weld dysgwyr eraill yn **llwyddo**.





Am gopi o'r ffurflen gais anfonwch e-bost at

dysgucymraeg@bangor.ac.uk

"Profiadau dysgu ac addysgu rhagorol", Estyn 2021



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gogledd Orllewin
North West